**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 23 Tachwedd 2016

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** Gary Williams Swyddog Monitro ac Uwch Swyddog Cyfrifol i Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro / Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol

**Teitl:** Adroddiad RIPA Blynyddol

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Dyma adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar ddefnydd y Cyngor o'i bwerau gwyliadwriaeth o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

O dan Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref, m ae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu adroddiadau blynyddol o leiaf i aelodau ynglŷn â defnydd yr awdurdod o'i bwerau o dan y drefn hon.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

Ychydig iawn o ddefnydd sydd wedi'i wneud o'r pwerau hyn ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor hwn; mae'r Cyngor wedi defnyddio ei bwerau yn y gorffennol ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon, troseddau amgylcheddol, gwerthu yn anghyfreithlon i rai dan oed megis alcohol neu dân gwyllt; lles anifeiliaid ac ati. Ni chaiff ceisiadau eu gwneud ar sail 'teithiau pysgota', fel arfer mae'r gwasanaeth yn derbyn tystiolaeth sy'n cefnogi'r gofyn am y wyliadwriaeth dan sylw.

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, dim ond un gweithrediad cuddwylio a gynhaliwyd gan y Cyngor; a oedd yn cynnwys gwerthu nwyddau â chyfyngiad oed, megis tybaco neu alcohol (prawf prynu ieuenctid). Gwnaethpwyd y cais i'r Llys Ynadon a chafodd ei ganiatáu yn briodol er mwyn galluogi swyddogion gwarchod y cyhoedd i gynnal y gweithrediad.

Darperir hyfforddiant mewnol i swyddogion ymchwilio ac un swyddog awdurdodi ar 30 Mawrth 2017, gydag astudiaethau achos ymarferol.

Mae gweithgor RIPA y Cyngor wedi parhau i gyfarfod yn ôl y gofyn, yn arbennig os oes unrhyw newidiadau i'r Codau Ymarfer neu'r Canllawiau a ddosberthir gan y Swyddfa Gartref neu Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth; er mwyn sicrhau fod polisi RIPA y Cyngor yn gyfredol ac yn addas i'r diben; i ystyried dulliau o gyflawni gweithrediadau penodol neu feysydd lle gallai RIPA gynorthwyo ag unrhyw broblemau gorfodi neu i gyflwyno unrhyw sylwadau o unrhyw Archwiliad neu gan aelodau o'r Pwyllgor hwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae goruchwyliaeth gan y Pwyllgor hwn yn cyfrannu at y flaenoriaeth o fod yn Gyngor sy'n perfformio ar lefel uchel.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau ar wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Cynhwysir y costau mewn cyllidebau presennol. Darperir hyfforddiant i swyddogion gan y Swyddog Monitro a'i Ddirprwy, yn hytrach na thalu sefydliadau hyfforddi allanol.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Ymgynghorwyd â gweithgor RIPA y Cyngor ynglŷn â'r cynnwys.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Wrth ddefnyddio ei bwerau o dan y drefn hon, gall y Cyngor fod mewn perygl o dorri hawl unigolyn i fywyd preifat a theuluol fel y nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ymarfer y pwerau hyn, bydd gofyn iddo, mewn cais i'r Swyddog Awdurdodi ac yna'r Llys Ynadon, osod allan yn gynhwysfawr iawn y rhesymau a'r seiliau dros gynnal gwyliadwriaeth, a dylai esbonio pam y byddai'n gymesur ymyrryd â hawliau dynol unrhyw unigolyn.

Bydd unrhyw risgiau yn cael eu lleihau drwy hyfforddi yn rheolaidd y swyddogion sy'n defnyddio'r pwerau hyn a thrwy gael y Swyddog Monitro i oruchwylio gweithgareddau fel hyn yn fanwl. Caiff y Cyngor hefyd ei archwilio bob tair blynedd gan Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth a chaiff yr adroddiad ei roi i'r Pwyllgor hwn ar ôl iddo gael ei dderbyn.

**10. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a Deddf Llywodraeth Leol 1972.